


Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**Yn seiliedig ar
Ganllawiau Crefydd,
Gwerthoedd a
Moeseg y Cwricwlwm
i Gymru**

**Dyddiad Gweithredu:
Medi 2022**



Rhagair

Cyflwyniad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Maes Llafur Cytunedig Lleol newydd Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Fel awdurdod lleol, rydym yn hyderus y bydd canllawiau Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ên galluogi i wella safonau Addysg Grefyddol yn ein hysgolion.

Mae'r Maes Llafur cytunedig hwn yn adeiladu ar waith Maes Llafur 2008 sydd wedi gwasanaethu Caerffili'n dda wrth ddatblygu darpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol a bydd yn cefnogi ysgolion wrth barhau i gyflawni CGM fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru.


Hoffwn ddiolch i Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg am eu cymorth a'u cyngor maent yn parhau i'w darparu i'r Awdurdod Lleol, ysgolion a lleoliadau addysg, athrawon a rhieni/gofalwyr mewn perthynas â materion addoli ar y cyd ac addysg grefyddol. Hoffwn hefyd ddiolch i gynrychiolwyr a swyddogion y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog am eu hymrwymiad yn y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a'i weithgor, ac am y cyngor a'r sylwadau gwerthfawr maent wedi'u darparu ynghylch paratoi'r ddogfen hon.


Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion am bopeth rydych yn ei wneud i gefnogi cyflawniad Addysg Grefyddol yn eich ysgolion. Nid yw wedi bod yn dasg hawdd, o ystyried yr heriau oherwydd y pandemig Covid-19 dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru'n gweithredu nifer o newidiadau ar draws cyflawniad CGM, gan gynnwys yr angen i'r pwnc gael e addysgu mewn ffordd wrthrychol, feirniadol ac amlblwyfol. Rwyf hefyd yn ymwybodol y gall diddymu hawl rhieni i dynnu eu plant o addysg CGM roi heriau ychwanegol i athrawon. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i ysgolion defnyddio dull mesuredig a sensitif wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr i bwysleisio'r rôl hanfodol y bydd CGM yn ei chwarae mewn addysg plentyn.

Hoffwn hefyd atgoffa'r holl ysgolion ac ymarferwyr CGM fod cymorth ar gael chi drwy Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili a Phartner Cwricwlwm y GCA (CYS a CGM) a hoffem eich annog i gysylltu â hwy os oes angen cyngor ar addysgu, dysgu ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol neu gyngor ar CGM yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

Dr Paul Warren

**Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion – Gwasanaethau Addysg a Chorfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**






Cynnwys

Tudalen

4	Swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg
4	Manylion Cyswllt
5	Cyflwyniad
6	Nodau CGM
7	Cynulleidfa
8	Amser Cwricwlwm
8	Dylunio'r Cwricwlwm
9	CGM Ôl-16
10	Yr hawl i ddiddymu'r Cwricwlwm i Gymru
10	Addoli ar y Cyd
10	Cwynion

Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)



Swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar CGM yw cynghori'r awdurdod lleol ar faterion o'r fath wedi'u cysylltu â darpariaeth dysgu ac addysgu, dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, naill ai o ran elfen orfodol CGM neu addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir o CGM opsiynol sy'n cynnwys; y dewis o ddeunyddiau addysgu; darpariaeth hyfforddiant athrawon. Yn ogystal, gall y CYS gynghori ar unrhyw fater arall y gall yr ALL gyfeirio ato, neu fel y mae'r CYS yn ei ystyried yn iawn.


Manylion Cyswllt

Am ragor o wybodaeth am CYS Caerffili neu os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Maes Llafur Cytunedig, cysylltwch â:

Hayley Jones (Partner Cwricwlwm y GCA – CYS a CGM)
hayley.jones@sewaleseas.org.uk neu 07904 644749.

Cyflwyniad

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw'r enw y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm Gymru. Mae **CGM yn orfodol i'r holl ddysgwyr 3 i 16 oed**. Mae hyn bellach yn dod dan Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, ynghyd â Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae CGM yn cael ei benderfynu'n lleol o hyd, yn ogystal ag ystyriaeth o Ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb, **mae'n rhaid i'r holl ysgolion yng Nghaerffili ystyried Maes Llafur Cytunedig Caerffili ar gyfer CGM wrth ddylunio eu cwricwlwm ysgol**.



Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw monitro darpariaeth statudol CGM, a chaiff ei gefnogi i wneud hyn gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS).

Mae'n ofyniad cyfreithiol ar bob awdurdod lleol i bennu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig y mae'n rhaid iddi baratoi maes llafur CGM i gael ei fabwysiadu gan awdurdod addysg lleol.

Mabwysiadwyd Canllawiau Statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru fel Maes Llafur Cytunedig newydd Caerffili ar gyfer CGM ar 20fed Mehefin 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r ALL gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar 28ain Mawrth 2022.

Mae modd cael mynediad i ganllawiau statudol CGM yma:

[Dolen i Hwb – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Nid bwriad y maes llafur hwn yw gweithredu fel cynllun gwaith. Mae'n darparu fframwaith lle gall pob ysgol ddylunio ei chwricwlwm lleol ei hun sy'n cynnwys CGM o fewn MDPH y Dyniaethau.

Nodau CGM

Mae CGM gorfodol yn gyfraniad pwysig ac amlwg i gefnogi'r pedwar diben drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- **ymgysylltu ac archwilio cwestiynau eithaf ac athronyddol** am ystyr bywyd, arwyddocâd a phwrpas bywyd ac am natur meddwl dynol a'r bydysawd, a' cysylltiadau rhyngddynt;
- **ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau doethineb ac athronyddiaeth** sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion dyn yng nghyd-destun eu cynefin, yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, yn ogystal â'u cefnogi wrth werthuso eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill;
- **datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain**, sy'n eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes mewn byd amlblwyfol ac amrywiol;
- **defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth** o gredoau ac arferion sefydliadol a phersonol crefyddol ac anghrefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain a sut gallant wneud penderfyniadau cymdeithasol a phersonol;
- **archwilio'r ffyrdd y mae credoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dyn drwy hanes**, fel y gallant wneud synnwyr o'u lle yn y byd, dychmygu dyfodol gwahanol a chreu datrysiadau cyfrifol sy'n ystyried anghenion a hawliau amrywiol yr holl bobl;
- **gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol i ymgysylltu â materion moesegol a moesol**, yn y gorffennol a'r presennol, sy'n herio eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o grefydd a chred, diwylliant, cymuned, eu cynefin, Cymru a'r byd ehangach nawr ac yn y gorffennol, sy'n gallu helpu i feithrin ymdeimlad o le ac ymberthyn;
- **ymateb yn sensitif i gredoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol** ac archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, Cymru a'r byd ehangach, a sut gall y rhain effeithio ar eu camau gweithredu a'u dewisiadau;
- **datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau a'u hysbrydolrwydd** drwy archwilio credoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol ar amrywiaeth o faterion, sydd yn e tro'n e galluogi i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch;
- **trafod a myfyrio ar eu safbwyntiau ei hunain a safbwyntiau pobl eraill** ar amrywiaeth o faterion, sy'n eu helpu i feithrin eu llesiant meddyliol, emosiynol ac ysbrydol drwy fagu hyder, datblygu gwydnwch ac empathi.

Cynulleidfa

Mae canllaw CGM MDPH y Dyniaethau wedi cael ei lunio i fod yn hygyrch i'r rheiny sy'n gyfrifol am ddylunio cwricwlwm. Dyma'r bobl y mae'n rhaid iddynt ystyried y canllaw wrth ddylunio cwricwlwm:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- darparwr addysg feithrin wedi'i hariannu, nas cynhelir;
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;
- y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
- unigolyn sy'n darparu dysgu ac addysgu i blentyn, mewn lleoliad nad yw'n ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu'n uned cyfeirio disgyblion, drwy rinwedd trefniadau a wnaed dan adran 19A Deddf Addysg 1996 (c. 56);
- awdurdod lleol yng Nghymru.

Hefyd, gall y canllawiau fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â budd mewn CGM. Nid oes rhaid i'r sefydliadau hyn ystyried y canllawiau, ond gallant fod yn ddefnyddiol gan roi gwybodaeth iddynt er mwyn iddynt ddeall cynnwys cwricwlwm lleoliad penodol.

Mae gan yr ALL ddyletswydd gyfreithiol i adolygu'r Maes Llafur Cytunedig bob pum mlynedd.

Dylai ysgolion ystyried y pwyntiau canlynol:

Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae'r Maes Llafur Cytunedig yn dangos y canlynol:

- bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru'n bennaf yn rhai Cristnogol wrth ystyried addysgu ac arferion prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- y ffaith bod amrywiaeth o greddau athronyddol anghrefyddol yn bodoli yng Nghymru.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn yr adran crynodeb cyfreithiol ar Hwb:

[Dolen i'r Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o Ddeddfwriaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Amser Cwricwlwm

Ar bob cam cynnydd, mae angen digon o amser ac adnoddau i ddarparu cwrs astudiaeth effeithiol a chydlynol. Fel elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru, **dylai CGM fod yn gyfartal â disgyblaethau eraill ym MDPH y Dyniaethau.**

Dylunio'r Cwricwlwm

Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n gofyn i'r holl ysgolion gynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y disgyblaetha a'r meysydd dysg a phrofiad gwahanol. Felly, dylai dylunio'r cwricwlwm uno disgyblaethau gwahanol, gan gynnwys CGM, i roi profiad dysgu cydlynol a holistig i ddysgwyr, sy'n cynnwys y canlynol:

- sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol;
- y sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben;
- ystyriaeth themâu trawsbynciol.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl disgyblaethau mewn dysgu ar gael yma:

[Dolen i Egwyddorion ar gyfer dylunio eich cwricwlwm - Hwb \(gov.wales\)](https://gov.wales)

Wrth gynllunio a pharatoi eich cwricwlwm CGM, dylech gymryd sylw o'r meysydd canlynol. Gweler y dolenni isod a fydd yn eich tywys i adrannau perthnasol y canllawiau ar wefan Hwb:

- [Datganiadau o'r hyn syn bwysig y Dyniaethau](#)
- [Disgrifiadau Dysgu \(camau cynnydd\)](#)
- [Cysyniadau CGM](#)
- [Lens CGM \(is-lensys mewn CGM\)](#)
- [Cynnydd a theithiau dysgu dysgwyr mewn CGM](#)
- [Datblygiad ysbrydol dysgwyr](#)

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, dylent gael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â disgyblaethau gwahanol ac i arbenigo oddi mewn iddynt, yn enwedig wrth iddynt gyrraedd y camau cynnydd hwyrach. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru'n dweud wrthym y dylai'r broses hon gael ei chefnogi gan addysgu arbenigol o ran y ddisgyblaeth, a ddylai, ynghyd â dull amlddisgyblaeth i ddylunio'r cwricwlwm, baratoi dysgwyr sy'n ceisio arbenigo ymhellach yn ystod dysgu ôl-16. **Bydd hyn yn gofyn i arbenigwyr addysgu CGM ac i arbenigwyr gael mewnbwn wrth ddylunio CGM o fewn y dyniaethau.**

Er y dylai dysgwyr gael cyfleoedd i arbenigo, mae'n rhaid i'r cwricwlwm barhau i fod yn eang ac yn gytbwys, a dylai pob dysgwr barhau i ddefnyddio dysgu o bob MDPH drwy eu hamser mewn addysg orfodol, sy'n cynnwys elfen orfodol CGM. Bydd disgwyl i ysgolion alluogi'r holl ddysgwyr i gael mynediad i amrywiaeth o gyrsiau astudio ac i ennill cymwysterau addas ar ddiwedd y cyfnod addysg orfodol.

CGM Ôl-16

Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae statws gorfodol CGM wedi cael e ddiddymu i fyfyrwyr Chweched Dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Felly, mae CGM bellach yn opsiynol i'r dysgwyr hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ysgolion unigol â myfyrwyr Chweched Dosbarth rhag nodi CGM ar yr amserlen i'r holl ddysgwyr, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth **yr hawl i 'optio i mewn' i CGM** a byddai'n rhaid i'r ysgol, yn gyfreithiol, ddarparu CGM i'r dysgwyr hynny ar gais.

Mae yna amrywiaeth o ffyrdd y gall ysgol ddarparu addysg CGM i fyfyrwyr Chweched Dosbarth sy'n gofyn amdani. Am gyngor ar y math hwn o ddarpariaeth, gall ysgolion gysylltu â'r Partner CGM neu CYS Caerffili ar CGM am gymorth. Mae manylion cyswllt ar gael ar dudalen 2 y ddogfen hon.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am CGM Ôl-16 yma:

[Dolen i Ganllawiau CGM Ôl-16](#)

Yr hawl i dynnu allan yn y Cwricwlwm i Gymru

O fis Medi 2022, ni fydd hawl rhieni i dynnu allan o CGM wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei weithredu yn eu grŵp blwyddyn. **Bydd hawl rhieni i dynnu allan yn parhau nes i'w grŵp blwyddyn ddod yn destun y Cwricwlwm i Gymru.**

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am yr hawl i dynnu allan yn y crynodeb cyfreithiol ar Hwb:

[Dolen i'r Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb Ddeddfwriaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Addoli ar y Cyd

Mae addoli ar y cyd **yn wahanol i, ac yn ychwanegol i**, amser cwricwlwm a roddir i CGM. Mae addoli ar y cyd yn dod y tu allan i'r cwricwlwm ac mae ganddo ei rym a'i ofynion cyfreithiol ei hun. Gall rhieni ddal ofyn i'w plant gael eu hepgor o addoli ar y cyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cwynion

Dan y Ddeddf Addysg, mae'n rhaid i'r ALL ddarparu trefniadau lleol ar gyfer mynd i'r afael â chwynion. Felly bydd y CYS ar CGM yn ystyried cwynion am ddarpariaeth CGM (neu ddiffyg darpariaeth CGM). Bydd y trefniant hwn yn rhoi'r cyfle i rieni a phobl eraill sicrhau darpariaeth gywir CGM ar draws yr holl ysgolion yng Nghaerffili.